# Goruchwyliaeth Diogelwch Gwylwyr Lefel 3 (Rhan-Amser) Dechrau Ionawr

Trwy gwblhau'r cymwysterau hyn, bydd dysgwyr yn bodloni gofynion y diwydiant i gyflawni rolau goruchwyliol o fewn stiwardio a diogelwch gwylwyr.

Diben y cymwysterau hyn yw cadarnhau cymhwysedd galwedigaethol a darparu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth o Ddiogelwch Gwylwyr i ddysgwyr. Maent wedi'u mapio i Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Skills Active (NOS) ar gyfer Diogelwch Gwylwyr 2019.

Mae'r Awdurdod Diogelwch Meysydd Chwaraeon (SGSA) yn arweinwyr ym maes diogelwch meysydd chwaraeon yn y DU ac wedi gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod cynnwys ein cymwysterau Diogelwch Gwylwyr yn adlewyrchu'r bygythiadau newidiol i ddigwyddiadau a mannau gorlawn.

Mae cyflogwyr diogelwch gwylwyr yn pwysleisio'n gyson y pwysigrwydd a roddir ar ddysgwyr i ddangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth trwy asesiadau sy'n seiliedig ar gymhwysedd.

Mae'r cymwysterau wedi'u cynllunio i adlewyrchu'r gofynion hyn, gan asesu perfformiad dysgwyr yn y swydd.

## Gofynion Mynediad

Rhaid i ddysgwyr fod yn 16+ oed.
Cyn y gellir ardystio dysgwyr ar gyfer y cymhwyster hwn, rhaid iddynt gwblhau:
- Cwrs hyfforddi cynnal bywyd sylfaenol sy'n cynnwys: CPR, safle adfer, defnyddio diffibriliwr a sut i reoli gwaedu.
- E-ddysgu Ymwybyddiaeth o Weithredu Gwrthderfysgaeth (ACT) (Tystysgrif) neu gwrs Hyfforddiant Strategol Gweithredu Gwrthderfysgaeth (ACT) (Tystysgrif Estynedig)

## Rhagolygon Gyrfa

Mae cwblhau'r cymwysterau hyn yn rhoi mynediad i swyddi stiwardio a diogelwch gwylwyr goruchwyliol gan gynnwys ar gyfer digwyddiadau chwaraeon a cherddoriaeth, gwyliau a charnifalau.

## Modiwlau'r cwrs

Er mwyn cyflawni Tystysgrif Lefel 3 YMCA mewn Goruchwylio Diogelwch Gwylwyr rhaid i ddysgwyr gwblhau pum uned orfodol a dwy uned ddewisol.

Mae modiwlau gorfodol y cwrs yn cynnwys:
– Paratoi stiwardiaid a lleoliadau ar gyfer digwyddiadau gwylwyr
– Rheoli a chynnal stiwardiaeth mewn ardaloedd dynodedig
– Rheoli gwybodaeth ar gyfer gweithredu a gwneud penderfyniadau ar gyfer digwyddiadau gwylwyr
– Datblygu a chynnal perthnasoedd gwaith cynhyrchiol gyda rhanddeiliaid
– Monitro a datrys problemau gwasanaethau cwsmeriaid

Mae modiwlau dewisol y cwrs yn cynnwys:
– Helpu i reoli a datrys gwrthdaro*
– Delio â digwyddiadau mewn digwyddiadau gwylwyr*
– Rheoli adnoddau ar gyfer diogelwch a diogeledd mewn digwyddiadau gwylwyr
– Rheoli'r defnydd effeithlon o adnoddau
– Datblygu eich gwybodaeth, sgiliau a chymhwysedd

*Argymhellir yn gryf mai dim ond dysgwyr nad ydynt wedi cwblhau cymhwyster lefel 2 mewn diogelwch gwylwyr yn flaenorol sy'n dewis yr unedau hyn.

## Asesiad

Portffolio o dystiolaeth
Arddangosiad ymarferol

### DULL ASTUDIO

WP

### LLEOLIAD

### HYD Y CWRS

2Y